# Sefydliad Addysgol John Vaughan

Sefydliad Cymunedol Cymru

Cafodd Sefydliad Addysgol John Vaughan ei sefydlu ar gyfer trigolion plwyf Llangynog, Sir Gaerfyrddin er mwyn gwneud y canlynol:

- annog, cefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol anstatudol a dysgu gydol oes, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar
- annog, cefnogi a hyrwyddo llesiant ysbrydol a gwella bywydau pobl nad oes ganddynt lawer o adnoddau

## Grantiau ar gael

- Gall elusennau, grwpiau a sefydliadau nid er elw wneud cais am grantiau o hyd at £1,000

## Pwy all wneud cais?

- Elusennau, grwpiau a sefydliadau nid er elw yn y plwyf, er enghraifft: grwpiau lifrog, prosiectau sydd wedi'u trefnu gan eglwysi a/neu sy'n defnyddio cyfleusterau sefydliadau sy'n gysylltiedig â ffydd a phrosiectau cymunedol e.e. clybiau cinio i bobl hŷn, clybiau ieuenctid a grwpiau mamau a babanod ac ati.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n dangos sut y byddant yn bodloni amcanion y Gronfa yn y ffordd orau, a phwy sy'n dangos yr angen ariannol a chymdeithasol yn y ffordd orau.

## Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan. Cofiwch:

- ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr cynnig a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig
- rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion
- cymorth ychwanegol

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.